# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**CPD Llwyn Piod**

**Clunderwen**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27 Mehefin 2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# CPD Llwyn Piod

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Oedolion a Phlant Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Transform Residential Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Caiff y bobl ifanc eu cefnogi i fynegi eu hunain a chânt ddewis yn eu bywydau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cymorth gan wasanaethau iechyd arbenigol a therapyddion lleferydd ac iaith. Maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden yn y cartref ac yn y gymuned. Mae'r bobl ifanc yn mynychu coleg ar y safle lle gallant feithrin ymdeimlad o annibyniaeth a mwynhau tyfu ffrwythau, llysiau a chymysgu â chyfoedion o gartrefi eraill. Maent wedi'u gosod yn addas, a chynhelir asesiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau y bodlonir eu hanghenion cyn cynnig lle iddynt.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae systemau effeithiol ar waith sy'n darparu llywodraethiant cyffredinol er mwyn gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref. Mae'r rheolwr yn rhoi cymorth i'r tîm o staff craidd sy'n ymrwymedig i anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc.

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cadarnhaol i'r bobl ifanc gael ymdeimlad da o lesiant. Mae digonedd o le ar gael i'r bobl ifanc ymgysylltu mewn gweithgareddau yn y cartref. Mae wedi'i ddodrefnu'n dda ac mae'n diwallu anghenion y bobl ifanc. Mae gardd fawr yn yr awyr agored yn rhoi'r cyfleoedd iddynt fynd allan i'r ardd ar ddiwrnodau braf ac maent yn mwynhau cerdded llwybrau cyfagos.

## Llesiant

Caiff lleisiau'r bobl ifanc eu clywed. Gwelsom staff gofal yn gwrando ac yn galluogi'r bobl ifanc i fynegi eu hunain, i wneud penderfyniadau ac i godi unrhyw bryderon. Mae'r systemau cyfathrebu effeithiol yn rhoi dewis i'r bobl ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau am eu bywydau bob dydd. Mae'r cyfarfodydd wythnosol yn bwrpasol wrth alluogi'r bobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau, i wneud pethau y maent yn eu mwynhau ac i feithrin arferion. Mae'r cynlluniau wythnosol yn addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu ac yn cael eu datblygu gyda'r staff gofal. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau megis bowlio, parciau trampolîn a ffotograffiaeth yn hyrwyddo llesiant emosiynol y bobl ifanc.

Caiff y bobl ifanc eu hannog i ddilyn ffordd iach o fyw ac i fwynhau tyfu ffrwythau a llysiau ffres yn nhai gwydr y coleg a chânt eu defnyddio i wneud prydau bwyd yn y cartref. Caiff y bwydlenni eu llunio gyda'r bobl ifanc sy'n iach ac yn faethlon.

Gwelsom y bobl ifanc yn y coleg yn cael cinio gyda'i gilydd ac yn ymgysylltu â chyfoedion a staff wrth iddynt ddysgu. Caiff anghenion addysgol y bobl ifanc eu diwallu yn y coleg ar y safle lle mae'r staff gofal yn cefnogi'r staff addysgu â'u dysgu a'u datblygiad.

Mae systemau diogelu effeithiol ar waith ac mae teclynnau hawdd eu deall ar gael sy'n addas ar gyfer anghenion a dealltwriaeth y bobl ifanc. Mae lluniau ar gael i'w galluogi i roi gwybod i'r staff a ydynt yn hapus neu'n teimlo'n drist neu pe baent am godi pryder. Mae rheolwyr y coleg a'r rheolwyr gofal yn mynychu cyfarfodydd diogelu wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar lesiant y myfyrwyr ac ar unrhyw bryderon posibl.

Caiff y bobl ifanc eu cefnogi i gynnal cydberthnasau teuluol a phobl sy'n bwysig iddynt. Roedd yr adborth a gafwyd gan y rhieni yr ymgynghorwyd â nhw yn dangos eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y mae'r bobl ifanc yn eu cael i ddatblygu eu hannibyniaeth pan fyddant i ffwrdd o'r cartref.

Mae'r staff gofal yn garedig, yn dangos parch ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi.

Cefnogir y bobl ifanc â'u hanghenion iechyd corfforol ac maent yn cael eu cofrestru â gwasanaethau iechyd lleol. Cânt eu cefnogi gan y staff gofal i drefnu a mynychu apwyntiadau pan fydd angen.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion pobl ifanc. Mae'n darparu lle priodol i'r bobl ifanc grwydro'n rhydd, ymgysylltu mewn gweithgareddau a chael man addas pan fyddant am gael cyfnodau tawel. Mae gardd fawr yn yr awyr agored gydag amrywiaeth o gyfarpar lle gall y bobl ifanc dreulio amser yn yr awyr agored.

## Gofal a Chymorth

Mae canllaw ar gael i'r bobl sy'n darparu gwybodaeth am yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth fyw yn y gwasanaeth, megis pa weithgareddau a gynigir, amwynderau lleol a gwasanaethau iechyd. Mae gweithdrefn gwyno yn rhoi arweiniad ar sut i godi pryder ac mae'n addas ar gyfer pobl ifanc.

Mae asesiadau'r darparwr yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am sut y bydd anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc yn cael eu diwallu. Caiff risgiau a chydnawsedd eu hystyried gan gynnwys rhesymeg ar sut y gellir darparu'r gwasanaeth sy'n cadw'r bobl ifanc yn ddiogel a byw gyda'i gilydd yn gytûn. Mae asesiadau'r darparwr yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn adlewyrchu'r anghenion gofal a chymorth presennol.

Mae'r cynlluniau personol yn drylwyr ac yn nodi sut y caiff y bobl ifanc eu hannog i gyflawni eu nodau a'u dyheadau. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi canllawiau i'r staff gofal ar sut i gefnogi'r bobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau personol ac yn annog sgiliau byw'n annibynnol sy'n hyrwyddo eu llesiant. Mae gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion iechyd, credoau diwylliannol a'r bobl sy'n ymwneud â'u gofal ar gael. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut mae'r bobl ifanc, y rhieni a'r gweithwyr cymdeithasol yn rhan o'r broses asesu, cynllunio ac adolygu ac a ydynt yn rhan o'r broses ai peidio.

Mae cynlluniau cefnogi ymddygiad ar waith ac yn darparu canllawiau defnyddiol ar sut i gefnogi pobl ifanc i gynnal ymdeimlad cadarnhaol o lesiant. Rhoddir ystyriaeth i'w hoff bethau a'u cas bethau a strategaethau i arwain y staff gofal i'w cefnogi'n effeithiol.

Mae'r asesiadau risg yn annog cymryd risgiau cadarnhaol ac yn darparu canllawiau ar sut i gadw'r bobl ifanc yn ddiogel wrth ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt.

Caiff cofnodion dyddiol eu cwblhau'n gyson gan y staff gofal ac maent yn darparu manylion am weithgareddau ac arferion dyddiol y bobl ifanc. Caiff y canlyniadau eu cofnodi mewn cofnodion dyddiol ac maent yn adlewyrchu'r wybodaeth a nodir yn y cynlluniau personol.

Gwelsom fod y staff yn rhoi cymorth ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol sy'n annog annibyniaeth y bobl ifanc. Dywedwyd wrthym fod trosiant y staff gofal yn isel, sy'n darparu cysondeb a pharhad gofal i'r cartref.

Mae'r systemau meddyginiaeth ar waith a gwneir trefniadau addas ar gyfer eu storio. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant addas ac maent yn gyfrifol am roi a rheoli meddyginiaeth yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Lleolir y cartref yng nghefn gwlad Sir Benfro â golygfeydd gwych gyda mynyddoedd y Preseli o'i amgylch. Mae'r cartref yn darparu ardal fawr sy'n lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae ardal fyw fawr â theledu, gemau a digonedd o seddau i'r bobl ifanc a'r staff gofal eistedd a threulio amser gyda'i gilydd.

Mae'r gegin o faint priodol ac mae cyfarpar addas i'r myfyrwyr wneud prydau bwyd ynddi. Caiff tymheredd pob oergell ei gwirio a'i chofnodi'n ddyddiol. Mae gan yr ystafell fwyta fwrdd a chadeiriau sy'n dda i'r bobl ifanc gael prydau bwyd gyda'r staff ac ar gyfer chwarae gemau ac ymgysylltu mewn gweithgareddau crefft. Mae lluniau o'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu harddangos sy'n rhoi ymdeimlad cartrefol i'r cartref. Mae'r ystafelloedd gwely yn gynnes, wedi'u dodrefnu'n dda, gyda lle addas i gael preifatrwydd ac i ymlacio.

Mae gardd fawr â chyfarpar i'r bobl ifanc fwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys gwelyau plannu uchel lle gall y bobl ifanc dyfu ffrwythau neu lysiau. Mae'r bobl ifanc yn rhoi eitemau lliwgar mewn coed er mwyn diwallu eu hanghenion synhwyraidd. Mae gan yr ardal gyfagos nifer o lwybrau i'r bobl ifanc fwynhau cefn gwlad ac i hyrwyddo eu llesiant corfforol ac emosiynol. Mae'r coleg o fewn pellter cerdded i'r cartref.

Mae asesiadau risg tân ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn modd amserol ac mae Cynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith er mwyn cadw'r bobl ifanc yn ddiogel.

Mae systemau monitro Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae eitemau Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu cadw dan glo yn ddiogel.

Mae gan y cartref lyfr ymwelwyr, a gofynnwyd i ni gofrestru a gwiriwyd ein prawf adnabod wrth gyrraedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth fanwl am y gwasanaeth ac mae'r coleg yn destun adolygiadau a diweddariadau rheolaidd.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ansawdd gofal cadarn ar waith. Mae prosesau ar waith sy'n monitro, adolygu ac yn gwella ansawdd y gofal ac yn canolbwyntio ar ysgogi gwelliannau i'r bobl ifanc. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn goruchwylio'r rheolwyr ac yn cadw golwg effeithiol ar ansawdd a diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Caiff adroddiad ar ansawdd y gofal ei gwblhau yn unol â'r gofynion rheoleiddiol ac mae'n cynnwys manylion y canlyniadau, y cyflawniadau a'r meysydd i lywio datblygiad parhaus y gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn cynnal goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd ac mae'n gefnogol o ddatblygiad y staff gofal. O'r dogfennau a adolygwyd, mae proses sefydlu bwrpasol yn rhoi'r rhinweddau a'r sgiliau cywir i'r staff ddarparu gofal a chymorth i bobl ifanc yn effeithiol.

Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i gefnogi'r bobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau.  Mae'r staff gofal yn llawn gwybodaeth ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ifanc ac yn gwybod sut i godi pryderon. Caiff y cofnodion hyfforddiant eu cadw'n gyfredol, ac maent yn cadarnhau pan fydd staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r staff wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a dywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog yn eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae system rheoli rotas ar waith a darperir lefelau staffio addas i'r bobl ifanc gyflawni eu canlyniadau. Mae'r staff gofal a rheolwyr y gwasanaeth yn cyflenwi unrhyw brinder ac ni chaiff unrhyw staff asiantaeth eu defnyddio ar hyn o bryd.

Caiff gwiriadau cyn cyflogi priodol eu cwblhau, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y maes i'w wella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf bellach wedi cael ei fodloni.

Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd, mae presenoldeb da ynddynt ac maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau a datblygiadau i'r bobl ifanc.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 35 | Nid oedd cofnodion recriwtio staff ar gael yn y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr eu harolygu | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/08/2024